# Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Datgan Diddordeb

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cwblhau’r dadansoddiad canlynol ar ba mor addas yw’r ased hwn ac mae wedi pennu mai ‘NA’ yw’r ateb i bob un o’r cwestiynau canlynol:

- A oes derbyniad cyfalaf ar gyfer yr ased hwn wedi'i glustnodi eisoes i gefnogi prosiect corfforaethol?
- A oes angen yr ased ar y Cyngor i gefnogi ei ofynion/amcanion ei hun?
- A oes angen sefydliad penodol ar y Cyngor i reoli’r ased er mwyn helpu i gyflawni amcanion y Cyngor, ac a oes perthynas waith wedi ei sefydlu eisoes rhwng y partïon?
- A oes yna unrhyw reswm arall pam na ddylai’r ased fod ar gael ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol e.e. o ganlyniad i’w gyflwr?

Datganiadau o ddiddordeb yw cam cyntaf y broses a bydd ar agor am bedair wythnos neu am hyd y cyfnod hysbysebu a ddiffinnir (pa bynnag un sydd hiraf).

**Bydd Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu derbyn gan sefydliadau sydd:**

- Yn Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned, sefydliadau Trydydd Sector neu Grwpiau Cymunedol
- Yn cael eu harwain gan y gymuned ac sydd â chysylltiadau cryf â’r gymuned leol gyda’r aelodau yn gallu dylanwadu ar eu gweithrediad ac ar y broses o wneud penderfyniadau.
- Yn sefydliadau cymunedol gwirfoddol neu sefydliadau o’r sector cymdeithasol.
- Gyda chyfansoddiad priodol, e.e. elusen gofrestredig.
- Gyda chyfansoddiad sy'n caniatáu perchnogaeth/rheoli adeiladau a/neu ddarparu gwasanaethau.
- Yn gallu dangos y gallant lywodraethu’n dda.
- Gyda sgiliau a phrofiad digonol i reoli eiddo a darparu gwasanaethau yn unol â phwrpas craidd yr awdurdod a chanlyniadau corfforaethol.
- Yn gallu dangos polisi amrywiaeth – bydd y defnydd arfaethedig yn cyrraedd rhannau helaeth o’r gymuned a bydd yn gynhwysol.
- Yn gallu dangos ymrwymiad i fudd cymunedol ac amgylcheddol yn unol ag egwyddorion craidd yr awdurdod.

Unwaith y bydd wedi ei dderbyn, bydd y Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei asesu i ystyried pa mor addas ydyw a bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais achos busnes llawn fel rhan o gam nesaf y broses. Bydd y cais yn cynnwys achos busnes llawn yn manylu ar sut y bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio a'r cynigion ar gyfer cynnal a chadw'r ased, ynghyd â ffurflen gais.

**Cysylltwch â assetmanagement@denbighshire.gov.uk os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.**

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.  This document is available in English.

## Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Datgan Diddordeb

### Llenwch yr adrannau isod gan roi manylion ynghylch sut yr ydych chi / eich sefydliad yn bwriadu defnyddio'r Ased.

**Rhowch fanylion llawn yr Ased y mae'r datganiad o ddiddordeb hwn yn ymwneud**

| |
|---|
| *<Rhowch fanylion>* |

**ag ef gan gynnwys y cyfeiriad.**

**Ydych chi'n cynrychioli sefydliad?**

☐ Ydw

| |
|---|
| *<Os mai 'Ydw' yw eich ateb, rhowch enw a manylion y sefydliad>* |

☐ Nac ydw

### Eich Gweledigaeth

**Disgrifiwch yn fras sut yr ydych chi'n bwriadu defnyddio'r ased**

| |
|---|
| *<Rhowch fanylion>* |

**Nodwch sut y bydd y cynnig o fudd i'r gymuned a'r manteision posibl o ran gwerth ychwanegol, manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol;**

| |
|---|
| *<Rhowch fanylion>* |

## Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Datgan Diddordeb

**A yw'r ffordd yr ydych chi'n bwriadu defnyddio'r ased yn wahanol i'r ffordd y mae'n**

| |
|---|
| *<Rhowch fanylion>* |

**cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd?**

**Nodwch sut yr ydych chi'n bwriadu ariannu'r gwaith o reoli a gweithredu'r ased gan gynnwys unrhyw waith/gweithgareddau cychwynnol sydd eu hangen (dylai hyn**

| |
|---|
| *<Rhowch fanylion>* |

**gynnwys manylion am gyllid cychwynnol A HEFYD cyllid parhaus a dangos p'un ai yw'r cyllid hwn eisoes wedi ei sicrhau).**

**Gyda phwy ydych chi wedi siarad â nhw am y syniad hwn? e.e., Cynghorydd Lleol, yr Adran Gynllunio, grwpiau cymunedol, preswylwyr ac ati.**

| |
|---|
| *<Rhowch fanylion>* |

## Ymwadiad

☐ Gallaf / Gallwn gadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y ddogfen hon yn gynrychiolaeth gywir o'n datganiad o ddiddordeb. Rwy'n deall y gall y Cyngor ofyn am wybodaeth ychwanegol ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio ac y gallech wirio hyn gyda ffynonellau eraill.

# Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Datgan Diddordeb

**Enw:**

**Dyddiad:**